

JONES, JOSIAH THOMAS (1799 - 1873), cyhoeddwr, a gweinidog Annibynnol

Enw: Josiah Thomas Jones

Dyddiad geni: 1799

Dyddiad marw: 1873

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyhoeddwr, a gweinidog Annibynnol

Maes gweithgaredd: Crefydd; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 23 Medi 1799 yn y Cwm-hir, Clydai, Sir Benfro, yn fab i Thomas a Rachel Jones, aelodau o eglwys Trelech. Yn 14 oed, aeth i siop yn Nanhyfer, ond yn 15 (yn Arberth) dechreuodd bregethu yn Llwyn-yr-hwrdd; bu dan addysg [Samuel Griffith](#) yn Hebron, ac wedyn aeth i academi Newport Pagnell. Y mae awgrym iddo fod am ychydig yn gofalu am eglwysi Keyston a Wolfsdale gerllaw Hwlfordd, ond ni ddywedir dim am hynny yn *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*. Sut bynnag, urddwyd ef, 6 Awst 1828, yn weinidog Pendref, Caernarfon. Ymddeolodd o'r ofalaeth hon yn 1831 (dilynwyd ef ynddi gan '[Caledfryn](#)'), ond daliodd i fyw yn y dref hyd 1836, yn argraffu a chyhoeddi llyfrau. O Gaernarfon, aeth i Ferthyr Tydfil, a chychwyn y *Merthyr and Cardiff Chronicle*, ond yn herwydd ei Radicaliaeth llwyddodd y meistri gwaith i'w erlid o'r dref, ac aeth i'r Bont-faen i ddal ymlaen â'r cyhoeddi. Yn 1838, aeth i Gaerfyrddin, ac ailafaelodd yn y weinidogaeth fel bugail eglwysi Llan-y-bri a Bethesda, ond 'nid oedd yr achos mewn un modd yn flodeuog' dano, gan mai yn ei wasg yn nhref Caerfyrddin yr oedd ei wir ddiddordeb. Symudodd i Aberdâr yn 1852, a bwriodd weddill ei oes yno; bu farw ganol nos, 26-7 Ionawr 1873.

Y mae'n amlwg nad oedd Josiah Jones yn llwyddiant fel gweinidog; priodolir iddo 'ryw anwastadrwydd.' Prin chwaith, a chanddo gynifer o heyrn yn y tân, y gallodd lwyddo i gadw ei ben uwchlaw'r d r yn ei fasnach, ar waethaf ei ddiwydrwydd dihafal. Ond fel cyhoeddwr, gwnaeth waith dirfawr, a chymwynas ddirfawr. Yr oedd yn werinwr i'r carn, ac ymroes i gyfrannu gwybodaeth o bob math - yn enwedig mewn diwinyddiaeth a gwleidyddiaeth - i'w gydwladwyr. Nid oes ofod i enwi mwy nag ychydig o'i gyhoeddiadau niferus. Yng Nghaernarfon, bu ganddo ran yn *Y Seren Ogleddo* a olygwyd gan '[Caledfryn](#),' a dechreuodd gyhoeddi *Geiriadur Duwinyddol* [William Jones](#) o Benybont-ar-Ogwr. Ym Merthyr Tydfil, fel y sylwyd, cyhoeddodd newyddiadur Radicalaidd. Yn y Bont-faen, gorffennodd gyhoeddi geiriadur [William Jones](#), a chychwynnodd *Yr Odydd Cymraeg a'r Gwron Cymreig*. Daliodd ati gyda'r *Gwron* yng Nghaerfyrddin, a chyhoeddodd yno gryn nifer o lyfrau, yn enwedig ei *Ddaearyddiaeth Ysgrythyrol*. Ond yn Aberdâr y cyrhaeddodd ei uchafbwynt, gan gychwyn *Y Gweithiwr* a'r *Aberdare Times*, a chyhoeddi llyfrau; yr enwocaf o'r rhain yw'r *Geiriadur Bywgraffyddol* dwy gyfrol, 1867, 1870, gwaith anwastad, a godidog o aflêr, sydd er hynny'n werthfawr dros ben, am y ceir ynddo ysgrifau (lawer ohonynt gan y golygydd) ar w r na chawsant gofiannau ond sydd eto'n ddiddorol i'r chwilotwr. Bu amryw lenorion pur nodedig, megis '[Cawrdaf](#)' (William Ellis Jones) ac '[Iago ap Dewi](#)' (James Davies, 1800- 1869), yn gweithio yn swyddfeydd Josiah Jones.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 234, 385, 388

D. Silyn Evans, *Y Geninen* (G yf Dewi), 1907, 26-30

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Josiah Thomas Jones](#)

Gweithiau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70)

Josiah Thomas Jones, *Traethawd ar y geri marwol: yn yr hwn y gosodir allan natur yr afiechyd - yr achosion o hono - a'r gocheliadau i'w defnyddio rhagddo yn ol golygiadau prif feddygon yr oes* (Aberdar 1855)

John Williams, Josiah Thomas Jones, *Hanes rhyfedd anturiaethau cenadol yn Ynysoedd Mor y Deau* (Caerfyrddin 1841)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [J. T. Jones Manuscripts](#)

Wikidata: [Q13129369](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

